

Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

I'w gynnal ddydd Iau, 11 Ebrill 2024 am 1400 o'r gloch

Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Swyddfeydd Safle Wylfa Newydd (Pŵer Niwclear Horizon), Bae Cemaes, Ynys Môn, LL67 0AA

Bydd lluniaeth yn cael ei weini o 1330 a dewch â phrawf adnabod â'ch llun arno (pasbort cyfredol neu drwydded yrru â llun) gyda chi i ganiatáu mynediad.

- | | |
|--|--------------------------|
| 1. Croeso (5 munud) | Aled M Jones |
| 2. Ymddiheuriadau am absenoldeb a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Hydref 2023 (5 munud) | Pawb |
| 3. Materion a godwyd o'r Cofnodion blaenorol (5 munud) | Pawb |
| 4. Adroddiad Cadeirydd yr SSG ar Lafar (10 munud) | Aled M Jones |
| 5. Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa ar Lafar (30 munud) | Stuart Law |
| 6. Diweddariad Corfforaethol NRS ar Lafar (10 munud) | Bill Hamilton |
| 7. Diweddariad yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear ar Lafar (15 munud) | David Wallace |
| 8. Diweddariad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear ar Lafar (10 munud) | Tanya MacLeod |
| 9. Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd ar Lafar (10 munud) | David Wilby/Kate Simpson |
| 10. Diweddariad GBN (15 munud) | |
| 11. Sesiwn Holi ac Ateb Fforwm Agored | Pawb |
| 12. Unrhyw Fater Arall | Pawb |

Cyfarfod Nesaf – 17 Hydref 2024



Wylfa Site Stakeholder Group Meeting

To be held on Thursday, 11 April 2024 at 1400 hrs
Magnox Ltd, Wylfa Hub Office, Wylfa Newydd Site Offices (Horizon Nuclear Power), Cemaes Bay,
Anglesey, LL67 0AA

Refreshments will be served from 1330 and please bring with you a piece of photographic
Identification (current passport or photographic drivers' licence) to allow access.

- | | |
|---|--------------------------|
| 1. Welcome (5 min) | Aled M Jones |
| 2. Apologies for Absence & Approval of Minutes of the 19 October 2023 Meeting (5 min) | All |
| 3. Matters arising from the previous Minutes (5 min) | All |
| 4. SSG Chairman's Verbal Report (10 min) | Aled M Jones |
| 5. Wylfa Site Director's Report (30 min) | Stuart Law |
| 6. NRS Corporate Verbal Update (10 min) | Bill Hamilton |
| 7. Nuclear Decommissioning Authority Verbal Update (15 min) | David Wallace |
| 8. Office for Nuclear Regulation Verbal Update (10 min) | Tanya MacLeod |
| 9. Natural Resources Wales / Environment Agency Verbal Update (10 min) | David Wilby/Kate Simpson |
| 10. Great British Nuclear Verbal Update (15min) | |
| 11. Open Question and Answer Forum Session | All |
| 12. Any Other Business | All |

Next Meeting – 17 October 2024



Crynodeb o'r Pwyntiau Allweddol o Gyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa 19.10.23

1. Adroddodd y Cadeirydd ar y digwyddiadau y mae wedi bod ynddynt ers cyfarfod diwethaf y Grŵp Rhanddeiliaid Safle.
2. Cyflwynodd Stuart Law Adroddiad Cyfarwyddwr y Safle a oedd yn cynnwys fideo byr ar ddatblygiadau ar y safle.
3. Diweddariad Corfforaethol Magnox – Diweddariad gan Bill Hamilton i'r aelodau ar faterion corfforaethol a chyfathrebu
4. Adroddiad yr NDA - Rhoddodd Simon Napper grynoded o'i adroddiad
5. Dosbarthwyd adroddiad y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear gyda phhecyn y cyfarfod ac, yn absenoldeb Ms T MacLeod, gofynnwyd i'r aelodau anfon unrhyw sylwadau/ymholiadau drwy ddolen e-bost.
6. Dosbarthwyd adroddiad diweddar Cyfoeth Naturiol Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd gyda phhecyn y cyfarfod a darparodd David Wilby, Cyfoeth Naturiol Cymru, grynoded byr yn y cyfarfod.



Cofnodion Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa

Dydd Iau 19 Hydref 2023, Swyddfa Hwb Wylfa Magnox, Cemaes, Ynys Môn

Yn bresennol:

Y Cyng Aled M Jones
Rhanddeiliaid y Safle
D Stuart Law
Simon Napper
Y Cyng Gordon Warren
Bill Hamilton
Iwan Jones
Virginia Crosbie
Y Cyng Derek Owen
Y Cyng Gwilym Morris
David Wilby
Enid Jones
Mark Elsworth
Y Cyng. Dafydd Griffiths
Steve Roberts
Cath Pitchard
Elin P. Jones
Ann Llwyd
Sydna Roberts

Cyngor Sir Ynys Môn, Ward Twrcelyn a Chadeirydd Grŵp
Cyfarwyddwr y Safle, Magnox
NDA
Cyngor Tref Amlwch
NDA
Swyddog Ynys Ynni
AS
Cyngor Sir Ynys Môn / Cyngor Cymuned Llanbadrig
Cyngor Cymuned Rhosybol
Cyfoeth Naturiol Cymru
Merched y Wawr
Magnox
Cyngor Cymuned Llanelian
Rheolwr HSE Horizon
Magnox
Magnox
Cyfieithydd - Cymen
Cofnodydd – Cymen

Ymddiheuriadau:

Tanya MacLeod
Y Cyng Llinos Medi Huws
Mair Jones
Gwyn Roberts

Kate Simpson
Y Cyng Llio A Owen
Y Cyng Liz Wood
Tim Poole
Y Cyng Jackie Lewis
Jonathan Holland

ONR
Cyngor Sir Ynys Môn
Magnox
Arolygydd Safle Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd
Magnox
Asiantaeth yr Amgylchedd
Cyngor Sir Ynys Môn
Cyngor Tref Amlwch
Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig (YDCW)
Cyngor Sir Ynys Môn
Arweinydd yn Rheoliadau (Parodrwydd a Gwybodaeth
Gyhoeddus) Argyfyngau Ymbelydrol (REPPiR), Cynllunio
Argyfwng, Cyngor NW

1 Croeso a Derbyn Ymddiheuriadau am Absenoldeb

2. Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 27.4. 23

Roedd y cofnodion wedi eu cylchredeg cyn y cyfarfod. Derbyniwyd y cofnodion fel cofnod cywir.

3 Materion yn Codi o'r Cofnodion Blaenorol

Ni chodwyd unrhyw fater

4 Adroddiad Cadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid y Safle

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod ac estynnodd groeso arbennig i Elin Jones yn ei swydd newydd fel Arweinydd Cyfathrebu ac i Virginia Crosbie AS. Dymunodd yn dda i Simon Napper hefyd yn ei swydd newydd gyda NWS.

Aeth y Cadeirydd yn ei flaen i roi diweddariad byr ar y canlynol:

- Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, y Cynghorydd Derek Owen, wedi cwrdd â'r NDA yr wythnos diwethaf.
- Mynychwyd cyflwyniad ar y cyllid Economaidd Cymdeithasol gan ailddatgan ei bwysigrwydd i ddatblygiadau o fewn y gymuned leol.
- Cynhaliwyd Wythnos Niwclear yn y Senedd hefyd ac ystyriwyd camau ffafriol i'r dyfodol o ran Wylfa
- Mynychodd y Cadeirydd a Mr Law gyflwyniad ar bwysigrwydd diwydiant niwclear yn y Gogledd Orllewin yn y Senedd yng Nghaerdydd.

5 Adroddiad Cyfarwyddwr Safle Wylfa

Cyflwynodd SL ei adroddiad cynhwysfawr a grynhoir fel a ganlyn: -

Ystadegau Diogelwch -

- Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00;
- Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00;
- Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: (1) 906 (ar 28/09/2023);
- Nodwyd dau fater:
 - halogiad a ganfuwyd yn y trap imbiber.
 - chyfarpar awyru o ardal y cap peil, fodd bynnag.Ni chofnodwyd unrhyw bryderon amgylcheddol/diogelwch gan asiantaethau statudol ynghylch y naill ddigwyddiad na'r llall.
- Cael gwared ar asbestos Llawr DA – 19, 000m2 o asbestos wedi'i glirio.
- Rhannodd SL fideo byr ynghylch y gwaith dymchwel a wnaed hyd yma. Cyfeiriodd yn benodol at ddymchwel adeiladau Gweinyddol a Ategol a sefydlu Compownd Sgip newydd. Cadarnhaodd SL bod yr holl eitemau wedi cael eu hailgylchu a/neu eu hadfer lle bo hynny'n bosibl, a bod gweddillion dros ben wedi cael eu symud o'r safle.
- Y camau nesaf ar gyfer y safle yw sicrhau system troshaen drydanol gyda llwybrau newydd arfaethedig yn cael eu hystyried ar hyn o bryd
- Cytunwyd i drefnu ymweliad safle arall ar gyfer mis Mai/Mehefin 2024
- Recriwtio Magnox – mae gwaith yn parhau gyda Choleg Menai / STEM ar Ynys Môn i gefnogi prentisiaid. Mae deg dyddiad wedi'u cynnig i ysgolion yn Ynys Môn, Conwy a Gwynedd mewn perthynas ag ymweliadau safle addysgol.

- Cyllid Economaidd-gymdeithasol Magnox – cefnogwyd y prosiectau lleol canlynol:-
 - Dyfarnwyd £2,000 i Gymdeithas Gymunedol Llanfechell i ariannu dau archaeolegydd ar brosiect cloddio archeolegol.
 - Derbyniodd tîm F1 mewn ysgolion Coleg Menai £725 ar gyfer crysau a chapiau polo â brand Magnox ar gyfer eu stondin tra'n mynychu'r rowndiau terfynol yn Leeds eleni.
 - Derbyniodd Mencap Môn £726 tuag at offer ar gyfer prosiect gardd man gwyrdd newydd yn Llangefni.
 - Derbyniodd tîm dan 9 oed Clwb Pêl-droed Tref Llangefni £971 yn ddiweddar ar gyfer cit newydd â brand Magnox.
 - Roedd tîm pêl-droed merched Caergybi Hotspurs o dan 14 oed hefyd wedi elwa o £852 ar gyfer cit newydd â brand Magnox.
 - Derbyniodd Yr Arwydd, papur bro lleol Cymraeg, £726 yn ddiweddar tuag at gostau argraffu ar gyfer y rhifyn nesaf.
- Diweddarau Strategaeth Economaidd-gymdeithasol yr NDA – dros y misoedd nesaf mae'r NDA yn dymuno ymgysylltu â rhanddeiliaid ledled y DU i ystyried blaenoriaethau cymdeithasol ac economaidd ym mhob cymuned er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'r cyllid sydd ar gael er y budd mwyaf i'r gymuned.
- Cafodd y cynllun Gwirfoddoli Cyndogol ei gyflwyno yn Nhrawsfynydd, Berkeley a Hunterston ym mis Gorffennaf 2023. Mae'n ffurfioli'r prosesau ar gyfer canfod, hyrwyddo, monitro ac adrodd ar gyfleoedd gwirfoddoli i weithwyr. Bydd y cynllun yn cael ei gyflwyno yn Wylfa dros y misoedd nesaf.

Sesiwn Holi ac Ateb

Derbyniodd SL wahoddiad yr AS i brentisiaid Wylfa ddod i Ddiwrnod Agored ar 22.11.23 yn y Senedd.

Ar gais, esboniodd SL y ffiniau ar Fap y Safle yn y cyflwyniad fideo.

Roedd hefyd yn dymuno nodi na chafwyd unrhyw gwynion/problemau sŵn neu darfu yn y gymuned mewn perthynas â'r gwaith dymchwel.

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Law am ei adroddiad.

6 Diweddariad Corfforaethol Magnox

Croesawyd Mr Bill Hamilton Cyfarwyddwr Materion Allanol Magnox i'r cyfarfod. Mynegodd ymddiheuriadau Mair Jones oherwydd profedigaeth ddiweddar.

Rhoddodd gyflwyniad byr ar faterion corfforaethol wedi'u crynhoi fel a ganlyn: -

- Ymweliad safle Wylfa gan gydweithwyr yn NDA Cumbria er mwyn gweld y gwaith sy'n mynd rhagddo.
- Cynhaliwyd cyfarfod gyda Phrif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn a staff lle mynegwyd pryderon ynghylch cyfleoedd cyflogaeth ar yr Ynys.
- Cyllid NDA/Magnox wedi'i ddarparu ar gyfer prosiect Parcdir Amlwch. Gofynnwyd i'r aelodau ystyried unrhyw brosiectau trawsnewidiol eraill y gellid eu cefnogi'n ariannol dros y 3-4 blynedd nesaf.
- Mae cynlluniau Cymydog Da yn mynd rhagddynt yn dda.

- Bydd BH yn cynrychioli Magnox mewn cyfarfod Morlais ar 20 Hydref 2023 – mae Morlais yn brosiect sy'n cael ei ariannu â sawl miliwn o bunnoedd, ac yn brosiect braenaru yn y DU ar gyfer ynni'r llanw.
- Ailfrandio Magnox – cynhelir y lansiad ar 31.10.23 a bydd aelodau'r Grŵp yn cael y manylion ar ôl y dyddiad hwnnw.
- Y Sgwrs Fawr – 2 ddigwyddiad i'w cynnal sy'n cynnwys pobl ifanc, a gofyn iddynt ystyried a thrafod eu hamgylchedd, materion addysg a chyfleoedd cyflogaeth. BH i roi cyflwyniad i gyfarfod nesaf Grŵp Rhanddeiliaid y Safle ar ganlyniadau digwyddiadau'r Sgwrs Fawr ac arolygon dros y ffôn.
- Mae Strategaeth 10 mlynedd lefel uchel yn cael ei datblygu ar hyn o bryd a bydd diweddariad hefyd yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf.

Sesiwn Holi ac Ateb – dim cwestiynau.

Diolchodd y Cadeirydd i BH am ei ddiweddariad.

7. Yr Awdurdod Datgomisiynu Niwclear

Croesawyd Mr Simon Napper i'r cyfarfod a diolchodd i'r aelodau am eu dymuniadau da ar ei symudiad i NWS.

- Diweddariad Llywodraeth y DU – Ysgrifennydd Gwladol wedi'i benodi yn yr Adran Diogelwch Ynni a Sero Net. Claire Croutinho yw hi, a arferai fod yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Addysg a chyn hynny yn Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hi'n AS y Ceidwadwyr dros Ddwyrain Surrey.
- Grŵp yr NDA – Mae Chris Train OBE, Cadeirydd Dros Dro newydd yr NDA, wedi cymryd lle Roz Rivaz, y daeth ei gyfnod yn y swydd i ben ym mis Awst.
- Uwchgynhadledd Rhanddeiliad Ar-lein - yn dilyn y digwyddiad yng Nghaeredin fis Medi diwethaf, mae'r NDA wedi penderfynu y bydd yr Uwchgynhadledd Rhanddeiliaid wyneb yn wyneb nesaf yn cael ei chynnal yn Cumbria yn 2024. Mae cynhadledd rithwir wedi'i threfnu ar gyfer yr hydref hwn hefyd, a bydd rhagor o fanylion yn dilyn dros yr wythnosau nesaf.
- Wythnos NIA yn y Senedd – y digwyddiad ar 11-14 Medi, a'r NDA wedi noddi'r Ffair Sgiliau a mynd â graddedigion a phrentisiaid i Lundain i gwrdd â'u AS lleol, ac i'r ASau ddeall gwaith yr NDA yn eu cymunedau. Trefnodd NIA ddigwyddiad yn y Senedd yng Nghaerdydd ar 26 Medi. Bu'r NDA a Magnox yn siarad am eu cenhadaeth ac yn cwrdd ag aelodau'r Senedd
- Adroddiad Blyneddol a Chyfrifon – mae cam un o greu grŵp symlach ar gyfer NDA wedi cael ei gwblhau. Mae'r paratodau wedi parhau er mwyn i NDA a Magnox ddatgomisiynu Adweithyddion Nwy-oeredig Uwch. Disgwylir mai Hunterston B fydd y safle cyntaf i drosglwyddo o EDF Energy yn 2026
- Strategaeth Economaidd-gymdeithasol – bob tair blynedd, mae'r NDA yn adolygu ei strategaeth economaidd-gymdeithasol i wneud yn siŵr ei bod yn addas i'r diben o ran helpu ein cymunedau a gwneud newidiadau lle bo angen. Bydd ymgynghoriad ffurfiol ar y strategaeth ddiwygiedig, a fydd yn dechrau cyn y Nadolig. Gwahoddir holl aelodau'r Grŵp Rhanddeiliaid Safle i gymryd rhan.
- Gweld yn y tywyllwch – mae 'Spot' yn robot pedwartroedyn o Boston Dynamics sy'n cael ei ddisgrifio fel 'robot ystwyth symudol'. Mae'n gallu gweithio mewn amodau cwbl dywyll ac ymdopi â rhwystrau eraill er mwyn casglu data radiolegol pwysig. Nid yw Spot wedi ymweld â Wylfa eto!
- Adfer y gwastraff cynharaf – mae glanhau safle Sellafield wedi cymryd cam sylweddol ymlaen gyda'r gwaith cyntaf o waredu gwastraff o Seilo Cladin Tanwydd Pentwr.

Sesiwn Holi ac Ateb

Cyfeiriodd Virginia Crosbie at ei hymweliad arfaethedig â safle GDF yn y Ffindir a gofynnodd sut mae gwybodaeth yn cael ei rhannu ynghylch datblygiadau GDF yn y DU. Roedd SN yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau dull cadarn o ymgysylltu â'r gymuned wrth ddatblygu safleoedd GDF. Mae tri safle wedi cael eu nodi yn Cumbria, ond yn dilyn arolwg daeareg, ystyriwyd bod un safle yn amhriodol. Mae gwaith yn mynd rhagddo gyda'r ddau safle arall a nodwyd.

8 Diweddariad gan y Swyddfa Rheoleiddio Niwclear

Anfonodd Tanya MacLeod ei hymddiheuriadau ond roedd wedi dosbarthu adroddiad diweddaru gyda'r papurau yn gofyn i'r aelodau anfon unrhyw ymholiadau/sylwadau a allai fod ganddynt drwy flwch post wylfa.ssg@magnoxsited.com

Sesiwn Holi ac Ateb

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau.

9 Diweddariad Cyfoeth Naturiol Cymru / Asiantaeth yr Amgylchedd

Dosbarthwyd adroddiad ar y cyd gan CNC/AA ar gyfer y cyfnod Ebrill - Medi 2023 gyda phapurau'r cyfarfod.

Cyflwynodd David Wilby yr adroddiad ar ran Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Dywedodd fod Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynnal arolygiad ym mis Mai 2023 ar reoli asedau i sicrhau bod systemau ac offer i ddiogelu'r amgylchedd yn cael eu cadw mewn cyflwr da – ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio. Nododd DW na chymerwyd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn Magnox Cyf. yn Wylfa yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

10 Sesiwn Holi ac Ateb y Fforwm Agored – ni chodwyd unrhyw gwestiynau pellach.

11. Unrhyw Fater Arall

Cyfeiriodd y Cadeirydd at e-bost a dderbyniodd gan Gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd. Cododd fater atgyweirio a chynnal a chadw pont wrth llyn Trawsfynydd a godwyd bron i 100 mlynedd yn ôl i hwyluso mynediad i'r gymuned leol. Mae'r ohebiaeth yn datgan bod y gymuned yn bryderus ynghylch cynnal a chadw'r bont ac mae Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd bellach yn gofyn am gymorth gan Grŵp Rhanddeiliaid Safle Wylfa.

Dywedodd BH wrth yr aelodau, er gwaethaf ymchwil ar y cyd gan gyfreithwyr Magnox, nad oes unrhyw dystiolaeth o unrhyw gytundeb ffurfiol ynghylch gofal a chynnal a chadw'r bont wedi cael ei nodi. Fodd bynnag, nododd BH fod Magnox, er gwaethaf hyn, wedi darparu gwaith cynnal a chadw sylfaenol ar y bont dros y blynyddoedd diwethaf gyda phrawf diogelwch bob 5 mlynedd. Nododd bod y cyflwr y bont erbyn hyn wedi mynd y tu hwnt i waith cynnal a chadw. Mae gwaith wedi cael ei wneud i gostio gwaith ailadeiladu'r bont, sef cost cyfalaf o £3m ac amcangyfrif o £2m ar gyfer gwaith cynnal a chadw yn y dyfodol, swm nad yw ar gael o fewn cyllidebau Magnox. Mae Magnox wedi cynnal cyfarfodydd gyda'r gymuned leol i drafod ffordd ymlaen. Yn ystod cyfarfod o'r fath, nodwyd bod angen arwyddion ar y llwybr o amgylch y llyn a bod cynllun Cyndogol Trawsfynydd yn mynd i'r afael â'r mater ar hyn o bryd.

Roedd SL yn cydnabod bod hwn yn fater sensitif i'r gymuned leol yn Nhrawsfynydd. Trosglwyddwyd y cyfrifoldeb dros Faentwrog i Wylfa ar ôl datgomisiynu Trawsfynydd. Gan fod Wylfa hefyd yn cael ei ddatgomisiynu, byddai trosglwyddo'r cyfrifoldeb yn ôl i Drawsfynydd yn fwy ffafriol ar gyfer trafodaeth a datrys y mater ymhellach.

Cytunwyd bod y Cadeirydd yn ymateb yn briodol i'r e-bost a dderbyniwyd gan Gadeirydd Grŵp Rhanddeiliaid Safle Trawsfynydd

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb a daeth y cyfarfod i ben am **3.10**

Dymunai'r Cynghorydd DO longyfarch y Cadeirydd ar gael ei ailbenodi'n Gadeirydd Pwyllgor Cadeiryddion Grŵp Rhanddeiliaid Safleoedd y DU.

Dyddiadau Cyfarfodydd Nesaf –

Dydd Iau 11.04. 24

Dydd Iau 17.10. 24

Llofnod
Y Cyng. Aled M Jones
Y Cadeirydd



Summary of Key points from the Wylfa SSG Meeting 19.10.23

1. The Chairman reported on the events he has attended since the last SSG meeting.
2. Stuart Law presented the Site Director's Report which included a short video on site developments.
3. Magnox Corporate update – Bill Hamilton updated members on corporate and communications issues
4. NDA Report - Simon Napper gave a summary of his report
5. The ONR report was circulated with the meeting pack and, in the absence of Ms T MacLeod, members were requested to forward any comment/queries via an email link.
6. NRW/EA update report was also circulated with the meeting pack and David Wilby NRW provided a brief summary at the meeting.



Minutes of the Wylfa Site Stakeholder Group
Thursday 19 October 2023, Magnox Wylfa Hub Office Cemaes Anglesey

Present:

Cllr Aled M Jones	IOACC Twrcelyn Ward and SSG Chair
Stuart Law	Site Director, Magnox
Simon Napper	NDA
Cllr Gordon Warren	Amlwch Town Council
Bill Hamilton	NDA
Iwan Jones	Energy Island Officer
Virginia Crosbie	MP
Cllr Derek Owen	Isle of Anglesey CC / Llanbadrig Community Council
Cllr Gwilym Morris	Rhosybol Community Council
David Wilby	NRW
Enid Jones	Merched y Wawr
Mark Elsworth	Magnox
Cllr Dafydd Griffiths	Llaneilian Community Council
Steve Roberts	HSE Manager Horizon
Cath Pitchard	Magnox
Elin P. Jones	Magnox
Ann Llwyd	Translator - Cymen
Sydna Roberts	Minute taker – Cymen

Apologies:

Tanya MacLeod	ONR
Cllr Llinos Medi Huws	Isle of Anglesey County Council
Mair Jones	Magnox
Gwyn Roberts	Magnox EHSS&Q Site Inspector
Kate Simpson	Environment Agency
Cllr. Llio A Owen	Isle of Anglesey County Council
Cllr Liz Wood	Amlwch Town Council
Tim Poole	CPRW
Cllr. Jackie Lewis	IoACC
Jonathan Holland	Lead REPPiR, Emergency Planning NW Council

1 Welcome and Receive Apologies for Absence

2. Approval of Minutes of the Meeting held 27.4.23

The minutes had been circulated prior to the meeting. The minutes were received and accepted as a true record.

3 Matters Arising from the Previous Minutes

None raised

4 **SSG Chairman's Report**

The Chair welcomed all to the meeting and extended a particular welcome to Elin Jones in her new post as Communication Lead and to Virginia Crosbie MP. He also wished Simon Napper well in his new post with NWS.

The Chair went on to provide a brief update on the following:

- Both the Chair and Vice Chair Cllr Derek Owen have met with the NDA last week.
- Attended a presentation on the Social Economic funding and reiterated its importance to developments within the local community.
- Nuclear Week in Parliament was also held and considered favourable future steps as regards Wylfa
- The Chair and Mr Law attended a presentation on the importance of nuclear industry in North Wales at the Senedd in Cardiff.

5 **Wylfa Site Director's Report**

SL presented his comprehensive report summarised as follows: -

Safety Statistics –

- Total recorded incident rate (TRIR): 0.00;
- Days away case rate (DACR): 0.00;
- No. of days since a lost time accident: (1) 906 (as at 28/09/2023);
- Two issues were noted:
 - contamination found in an imbibitor trap.
 - ventilation equipment from pile cap battery charging room with no defined maintenance.

No environmental/safety concerns were recorded by statutory agencies on either event.

- DA Floor Asbestos removal – asbestos cleared 19, 000m2.
- SL shared a short video regarding the demolition work undertaken to date. He referred specifically to the Admin and Ancillary building demolitions and the establishment of a new Skip Compound. SL confirm that where possible all items have been recycled and/or reclaimed with surplus debris removed from the site.
- Next steps for the site is to ensure an electrical overlay system is installed.
- It was agreed that another site visit be arranged for May/June 2024.
- Magnox Recruitment – work continues with Coleg Menai / STEM on Anglesey in supporting apprentices. Ten dates have been offered to schools in Anglesey Conwy and Gwynedd in respect of educational site visits.
- Magnox Socio-Economics funding – the following local projects were supported:-
 - Llanfechell Community Association were awarded £2,000 to fund two archaeologists on an archaeological dig project.
 - Coleg Menai F1 in schools team received £725 for Magnox branded polo shirts and caps for their stand whilst attending the finals in Leeds this year.

- Mencap Môn awarded £726 towards equipment for a new green space garden project in Llangefni.
 - Llangefni Town Football Club, under 9's team recently received £971 for a new Magnox branded kit.
 - Holyhead Hotspurs under 14's girls football team also benefitted from £852 for a new Magnox branded kit.
 - Yr Arwydd, local Welsh community paper recently received £726 towards printing costs for the next edition.
-
- NDA Socio-Economic Strategy refresh – over the next few months the NDA wish to engage with stakeholders across the UK to consider social and economic priorities within each community in order to ensure best use of available funding for maximum community benefit.
 - The Neighbourly Volunteering scheme was introduced in Trawsfynydd, Berkeley and Hunterston in July 2023. It formalises the processes for identifying, promoting, monitoring and reporting volunteer opportunities for employees. The scheme will be introduced in Wylfa over the coming months.

Question and Answer Session

SL accepted the MP's invitation for Wylfa apprentices to attend an Open Day on 22.11.23 in Parliament.

Upon request, SL clarified the boundaries on the Site Map within the video presentation. He also wished to note that there had been no noise or disruption complaints/issues received from the community in respect of the demolition works.

The Chair thanked Mr Law for his report.

6 Magnox Corporate update

Mr Bill Hamilton External Affairs Director for Magnox was welcomed to the meeting. He tendered Mair Jones' apologies due to a recent bereavement.

He gave a brief presentation on corporate issues summarised as follows: -

- Wylfa site visit by NDA Cumbria colleagues in order to observe ongoing work.
- Meeting held with the Chief Executive of Isle of Anglesey County Council and staff where concerns were voiced regarding employment opportunities on the Island.
- NDA/Magnox funding provided to the Amlwch Parkland project. Members were requested to consider any other transformational projects that could be supported financially over the next 3-4 years.
- Good Neighbour schemes are progressing well.
- BH will be representing Magnox at a Morlais meeting on the 20 October 2023 – Morlais being a multi-million pound funded project, a pathfinder in UK for tidal energy.
- Magnox rebranding – launch to be held on 31.10.23 and SSG members will be provided with the detail after that date.
- The Big Conversation – 2 events to be held involving young people and asking them to consider and discuss their environment, education issues and employment opportunities. BH to provide a presentation to the next SSG meeting on the outcomes of the Big Conversation events and telephone surveys.

- A high level 10 year Strategy is currently being developed and an update will also be presented to the next meeting.

Question and Answer session – none presented.

The Chair thanked BH for his update.

7. **Nuclear Decommissioning Authority**

Mr Simon Napper was welcomed to the meeting and he thanked members for their good wishes on his move to NWS.

- UK Government update – Secretary of State appointed at Department of Energy Security and Net Zero. She is Claire Coutinho who was previously Parliamentary Under Secretary of State at the Department for Education and before that Parliamentary Under Secretary of State at the Department for Work and Pensions. She is Conservative MP for East Surrey.
- NDA Group - NDA's new Interim Chair Chris Train OBE has replaced Roz Rivaz whose term of office ended in August.
- Online Stakeholder Summit – following the event in Edinburgh last September, the NDA has decided that the next in-person Stakeholder Summit will be held in Cumbria in 2024. A virtual Summit is also scheduled for this autumn, more details will follow in the coming weeks.
- NIA Week in Parliament – the event 11-14 September and the NDA sponsored the Skills Fair and brought graduates and apprentices to London for them to meet their local MP, and for the MPs to understand the work of the NDA in their communities. The NIA organised an event at the Senedd in Cardiff on 26 September. NDA and Magnox spoke about their mission and met Senedd members
- Annual Report and Accounts - phase one of creating a simpler NDA group has been completed. Preparations have continued for the NDA and Magnox to decommission Advanced-Gas Cooled Reactors. The first site to transfer from EDF Energy is expected to be Hunterston B in 2026
- Socio Economic Strategy – every three years, NDA reviews its socio-economic strategy to check that it is fit for purpose in helping our communities and making changes where necessary. There will be a formal consultation on the revised strategy, due to start before Christmas. All SSG members are invited to take part.
- Seeing in the dark – 'Spot' is a robotic quadruped from Boston Dynamics described as a 'mobile agile robot'. It can negotiate pitch-black conditions and other obstructions in order to collect important radiological data. Spot is yet to visit Wylfa!
- Retrieving the earliest waste – clean-up of the Sellafield site has taken a significant step forward with the first removal of waste from the Pile Fuel Cladding Silo.

Question and Answer session

Virginia Crosbie referred to her upcoming GDF site visit to Finland and enquired as to how information is shared regarding GDF developments in the UK. SN acknowledged the importance of ensuring a robust community engagement approach when developing GDF sites. Three sites have been identified in Cumbria but following a geology survey one site was deemed inappropriate. Work is ongoing with the other two sites identified.

8 **Office for Nuclear Regulation Update**

Tanya MacLeod tendered her apologies but had circulated an update report with the papers requesting that members forward any queries/comment they might have via the wylfa.ssg@magnoxsite.com mailbox.

Question and Answer session

None presented.

9 Natural Resources Wales / Environmental Agency Update

A joint NRW/EA report for the period April – Sept 2023 was circulated with the meeting papers.

David Wilby presented the report on behalf of NRW and EA. He stated that NRW had carried out an inspection in May 2023 on asset management to ensure that systems and equipment to protect the environment are being kept in good repair - no non-compliances were identified. DW concluded that no enforcement action against Magnox Ltd at Wylfa has taken place in this reporting period.

10 Open Forum Question and Answer Session – no further questions were raised.

11. Any Other Business

The Chair referred to an email he had received from the Chair of Trawsfynydd SSG. It raised the issue of repairs and maintenance to a bridge by the Trawsfynydd lake erected nearly 100 years ago to facilitate access for the local community. The correspondence states that the community are concerned regarding the maintenance of the bridge and Trawsfynydd SSG now seeks Wylfa SSG support.

